Yn Bresennol:

| Enw | Sefydliad |
|---|---|
| Simon Pickering (Cadeirydd) | Llywodraeth Cymru – Pennaeth Tirweddau a Hamdden Awyr Agored |
| Jont Bulbeck | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Eifion Jones (BBNPA) | Yn cynrychioli tri Awdurdod Parc Cenedlaethol a phum AHNE |
| Ben Sears | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |

Cymorth technegol ac ysgrifenyddol:

| Enw | Sefydliad |
|---|---|
| Helen Lewis | Llywodraeth Cymru – Tirweddau a Hamdden Awyr Agored |
| Sarah Smith | Llywodraeth Cymru – Tirweddau a Hamdden Awyr Agored |
| Joe Roberts | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Jayne Carter | Cyfoeth Naturiol Cymru |

Ymddiheuriadau:

| | |
|---|---|
| Adrian Walls | Gweithgor Rheolwyr Hawliau Tramwy Cymru |

| Prif benderfyniadau a materion yn codi | Perchennog |
|---|---|
| **Nodiadau a chamau gweithredu'n codi o'r cyfarfod blaenorol**<br><br>1. Cytunwyd ar y cofnodion<br><br>2. **Pwynt gweithredu 4 a 5 (17/06/20)**: Mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) wedi nodi nifer o gwestiynau cyfreithiol sydd wedi cael eu codi yn ystod cyfarfodydd y grwpiau arbenigol. Cytunodd EJ ac AW i wirio'r cwestiynau cyfreithiol a godwyd o safbwynt swyddog hawliau tramwy. | |

| | |
|---|---|
| Bydd CNC yn anfon papur terfynol at Lywodraeth Cymru yn amlinellu'r cwestiynau cyfreithiol.<br><br>*Mae papur terfynol yn amlinellu'r cwestiynau cyfreithiol wedi cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.*<br><br>3. **Pwynt gweithredu 7 (17/06/20)**: Cydnabuwyd y byddai'n ddefnyddiol symud cyfarfodydd y Grŵp Llywio yn y dyfodol yn ôl tua phythefnos. Bydd CNC yn hysbysu Llywodraeth Cymru am y newidiadau sydd wedi cael eu hawgrymu.<br><br>*Mae amserlen cyfarfodydd y Grŵp Llywio wedi cael ei diwygio.*<br><br>4. **Pwynt gweithredu 10 (17/06/20)**: Mae Ben wedi trefnu cyfarfod gyda Swyddog Data Gofodol i drafod rhoi cymorth i Grŵp Arbenigol 3.<br><br>*Yn anffodus ni chynhaliwyd y cyfarfod. Yn y cyfamser, bydd CNC yn parhau i ddefnyddio adnoddau mewnol. Mae'n bosibl y bydd rhaid ystyried yr angen am gyngor allanol unwaith eto rywbryd yn y dyfodol.* | |
| **Diweddariad ar yr Adroddiad Nodi Opsiynau**<br><br>5. Rhoddodd CNC ddiweddariad ar yr adborth a dderbyniwyd. Cytunwyd y dylid llunio dogfen 'Adroddiad ar yr Ymatebion' i amlinellu'r adborth hwn.<br><br>Nodwyd mai galwad am dystiolaeth oedd y cam hwn, ac y ceisid barn ar yr opsiynau a ffefrir maes o law. Er bod nifer o ymatebion manwl wedi cael eu derbyn, dywedodd rhai aelodau o grwpiau arbenigol fod COVID-19 wedi cyfyngu ar eu gallu i ymateb. Cytunodd y grŵp y dylai cynrychiolwyr sector ystyried defnyddio dirprwyon neu eraill sy'n cynrychioli'r un grŵp â diddordeb os nad ydynt yn gallu cyfrannu.<br><br>6. Cytunwyd y dylai'r adroddiad gynnwys yr unigolyn a roddodd y sylwadau a'r mathau o dystiolaeth a dderbyniwyd.<br><br>7. Bu trafodaeth ynghylch cynnal rhagor o waith ymgysylltu a'r angen i gysylltu â safbwyntiau strategol ehangach Llywodraeth Cymru. Cytunodd Simon i gysylltu â chydweithwyr sy'n gyfrifol am Deithio Llesol, a bydd yn parhau i drafod â'r sector Ffermio Cynaliadwy. | CNC<br><br>CNC<br><br>Simon |
| **Yr Adroddiad ar Nodi a Dadansoddi Opsiynau**<br><br>8. Dywedodd CNC y rhoddir costau dangosol lle bynnag y bo modd. Dylid nodi y byddai Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn archwilio i gostau. | |

| | |
|---|---|
| 9. Cytunodd y Grŵp ar y sail ar gyfer yr Adroddiad Dadansoddi Opsiynau: byddai pob un o'r opsiynau'n cael ei ddadansoddi yn erbyn y meini prawf yn seiliedig ar y ffeithiau. Bydd yr adroddiad yn gwneud argymhellion ac yn nodi cyfleoedd ar gyfer mireinio, gan gynnwys naratif ar themâu trawsbynciol a gweithgareddau hamdden cyfrifol. Mae'n bosibl y bydd angen gadael rhai meysydd fel 'pŵer yn erbyn dyletswydd' i Lywodraeth Cymru eu hystyried. | |
| **Cwestiynau Cyfreithiol**<br><br>10. Dywedwyd wrth y Grŵp nad oedd timau cyfreithiol Llywodraeth Cymru ac CNC yn credu bod eu cylch gwaith yn cynnwys rhoi cyngor i ARAG. Mae dyfynbrisiau'n cael eu ceisio gan gwmni cyfreithiol allanol ar hyn o bryd a byddant yn cael eu cyflwyno i Llywodraeth Cymru i'w cymeradwyo. | Llywodraeth Cymru/CNC |
| **Unrhyw Fater Arall**<br><br>11. Defnyddir hwylusydd ar-lein ar gyfer cyfarfodydd nesaf y Grŵp Arbenigol. Bydd CNC yn anfon y cynnig at aelodau'r Grŵp Llywio er mwyn ei derfynu yn eu cyfarfod nesaf.<br><br>12. Bydd CNC yn darparu rhestru o'r holl ddiwygiadau sy'n berthnasol i Grŵp 1 a Grŵp 2.<br><br>13. Dywedodd Llywodraeth Cymru fod is-Grŵp y Fforwm Mynediad Cenedlaethol yn ystyried y cynigion ar gyfer mynediad at ddŵr (Grŵp 3), ac wedi ysgrifennu at y Dirprwy Weinidog yn amlinellu'r opsiwn yr hoffent ei ystyried ymhellach. | CNC<br><br>CNC |